Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Pen Y Bryn
Rhodfa Wentworth
Bae Colwyn
Conwy
LL29 6DD

05/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Pen Y Bryn yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau darpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion

- Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth glir a graddol ar gyfer y Gymraeg sy'n sicrhau darpariaeth gyson ar draws yr ysgol. Mae'r dull cydlynus hwn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cynaledig a phriodol wrth ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg dros gyfnod.
- Yn gyffredinol, mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Maent yn elwa ar sesiynau 'Helpwr Heddiw' rheolaidd sy'n darparu cyfleoedd pwrpasol i ymarfer ac atgyfnerthu geiriau ac ymadroddion cyffredin yn fuddiol.
- Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o ymwelwyr a chyfleoedd gwerthfawr, fel perfformiadau yn yr Eisteddfod, i gyfoethogi defnydd creadigol disgyblion o'r Gymraeg. Mae'r profiadau hyn yn gwella hyder a rhuglder disgyblion yn y Gymraeg yn fawr, ac yn ennyn eu brwdfrydedd dros yr iaith.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu ystod briodol o adnoddau defnyddiol ar gyfer disgyblion sy'n ymestyn ac yn atgyfnerthu eu medrau Cymraeg yn bwrpasol.
- Mae gan y 'Criw Cymraeg' rôl ddylanwadol mewn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chryfhau synnwyr disgyblion o hunaniaeth Gymreig. Trwy arwain gwasanaethau

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

rheolaidd a chreu cylchlythyrau addysgiadol ar gyfer rhieni, maent yn llwyddo i ysbrydoli defnydd gwell o'r Gymraeg yn yr ysgol, yn ystod amseroedd egwyl, ac yn y cartref.
- Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol pwrpasol sy'n datblygu hyder a chymhwysedd staff yn y Gymraeg yn effeithiol. Mae hyn yn meithrin ethos ysgol gyfan cadarnhaol sy'n codi proffil yr iaith yn effeithlon ac yn hyrwyddo defnydd cynyddol disgyblion o'r Gymraeg mewn cyd-destunau chwarae a dysgu, fel ei gilydd.

## Darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 6 gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu medrau mathemategol a rhifedd disgyblion sydd wedi'i seilio ar sicrhau dealltwriaeth gadarn o gysyniadau a darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar draws ystod bwrpasol o gyd-destunau. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n effeithiol â staff a disgyblion.
- Mae staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol sydd wedi datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn briodol. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at ddull cyson o ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol.
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu pwrpasol sydd ag amcanion dysgu clir ac yn ennyn ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae llawer o weithgareddau'n herio disgyblion yn briodol.
- Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio ystod addas o gwestiynau i annog disgyblion i alw dysgu blaenorol i gof a chadarnhau dealltwriaeth. Yn yr enghreifftiau gorau, mae cwestiynau athrawon yn annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach am eu syniadau mathemategol ac yn cefnogi datblygiad eu medrau datrys problemau yn llwyddiannus.
- Mae adborth athrawon yn cynorthwyo disgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda a ble gellid gwella'u gwaith. Mae disgyblion yn ymateb yn briodol ac yn gwneud gwelliannau addas i'w gwaith.
- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth fathemategol dros gyfnod. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau'n hyderus ar draws ystod o gyd-destunau.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-pen-y-bryn-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol